

1. Manylion

Teitl y Rôl: Aelod o'r Panel Ymgynghorol.

Ymrwymiad Amser:

3 chyfarfod y flwyddyn mewn gwahanol leoliadau yng Nghymru, a **4** cyfarfod arall dewisol, os cewch eich penodi, fel aelod anweithredol o Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Comisiynydd.

Gellir gwahodd un neu ddau o'r aelodau i ymuno â hyd at **3** chyfarfod o'r Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc bob blwyddyn, i gynrychioli'r panel ymgynghorol.

Bydd yr aelodau hefyd ar gael yn achlysurol rhwng y cyfarfodydd hyn, dros y ffôn neu'r e-bost, i roi barn, cyngor ac arweiniad.

2. Prif ddiben y rôl

Fel Aelod o'r Panel Ymgynghorol byddwch yn cyfrannu fel rhan o grŵp o hyd at 18 o bobl at ddarparu cyngor strategol pwyllog, cefnogaeth, craffu a her i'r Comisiynydd a'i thîm o staff, gan weithredu fel ffrind beirniadol yn ôl y galw, er mwyn ychwanegu at effeithiolrwydd gwaith y tîm o staff a chyflawni cylch gwaith a chyfrifoldebau statudol y Comisiynydd.

Bydd prif gyfrifoldebau eich rôl yn cynnwys:

- Rhoi cefnogaeth strategol a chynghori i'r Comisiynydd, gan ei herio'n arbennig yng nghyswllt creu a chyflawni ei chynlluniau strategol a gwaith blynyddol, a'r broses o benderfynu ar flaenoriaethau gwaith y tîm o staff a'u cyflawni.
- Gweithredu fel seinfwrdd cyfrinachol i'r Comisiynydd a'i thîm o staff, gan lywio datblygiad polisiâu gweithrediadol a chynigion busnes.
- Helpu i sicrhau'r effaith a'r capasiti mwyaf posibl i waith y Comisiynydd, a bod ei phwerau'n cael eu defnyddio mor effeithiol â phosibl i hybu a diogelu hawliau plant a phobl ifanc er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc yng Nghymru.
- Helpu i sicrhau bod gwaith y Comisiynydd yn cyfateb yn briodol i ddatblygiadau deddfwriaeth, polisi ac ymarfer i blant, ac wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol er mwyn osgoi dyblygu.
- Darparu'r cyd-destun ehangach y mae'r Comisiynydd a'i swyddfa'n gweithredu oddi mewn iddo, gan ei chynghori ynghylch cyfleoedd a risgiau, ac yn arbennig darparu gwybodaeth iddi ynghylch canfyddiadau rhanddeiliaid allanol o'r Comisiynydd a gwaith ei swyddfa, a'r gefnogaeth a allai fod ar gael ganddynt.
- Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiynydd, a roddir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn flynyddol.

3. Manyleb Person ar gyfer Aelod o'r Panel Ymgynghorol

Sgiliau a Gwybodaeth Hanfodol:

- Gwybodaeth a dealltwriaeth helaeth o brofiadau plant a phobl ifanc yng Nghymru;
- Gallu i ddarparu her adeiladol, yn ddelfrydol wedi'i seilio ar dystiolaeth, i gynigion polisi a/neu ffyrdd sefydledig o feddwl;
- Gallu i gyflawni'r rôl ag uniondeb proffesiynol, gan fod yn esiampl o'r safonau ymddygiad uchaf mewn bywyd cyhoeddus. Bydd y rôl hon yn galw am weithio'n agos gyda'r Comisiynydd, felly bydd disgwyl i chi drin gwybodaeth mewn modd sensitif ac ymddwyn yn unol ag 'Egwyddorion Nolan';
- Sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu cryf;
- Y gallu i gynnal barn annibynnol;
- Y gallu i ddadansoddi problemau cymhleth yn gyflym a chyflwyno gwybodaeth mewn modd clir, llawn cymhelliad;
- Sgiliau gweithio mewn fîm, ac yn arbennig gallu i weithio'n effeithiol gyda phlant a phobl ifanc ac agwedd gadarnhaol at hynny;
- Gwybodaeth am fframweithiau llywodraethu ac atebolrwydd sefydliadol.

Meini prawf dymunol:

- Dealltwriaeth o'r amgylchedd y mae'r sector cyhoeddus yn gweithredu oddi mewn iddo

Ar ben hynny dylai ymgeiswyr fedru arddangos gwybodaeth a phrofiad mewn UN o leiaf o'r meysydd canlynol:

- Profiad amlwg o weithio'n ddylanwadol ar draws y sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol
- Gwybodaeth amlwg am wasanaethau yng Nghymru sy'n berthnasol i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Gallwch fod wedi caffael hyn trwy brofiad personol o ddefnyddio gwasanaethau;
- Gwybodaeth a phrofiad amlwg o'r broses o lunio polisi ar lefel llywodraeth leol a chenedlaethol;
- Gwybodaeth am rôl, cylch gwaith, pwerau a dyletswyddau'r Comisiynydd Plant (neu ymrwymiad i ddod i wybod amdanynt), fel y'u diffiniwyd yn y ddeddfwriaeth;
- Profiad o weithio gydag allfeydd cyfryngau lleol a chenedlaethol;
- Dealltwriaeth o Gymru, yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru;
- Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg.

Bydd disgwyl bod ymgeiswyr yn meddu ar y nodweddion personol canlynol, a ddiffiniwyd gan Egwyddorion Nolan:

- Natur anhunanol
- Uniondeb
- Gwrthrychedd
- Atebolrwydd
- Natur agored
- Gonestrwydd
- Arweinyddiaeth